



Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

Canllawiau Cymorth Egwyl Mis Rhagfyr

2025/26

A large, white, stylized letter 'W' is centered within a white rectangular box, which is the logo for Wrexham University.

Gofalu Amdanoch Eich Hun dros y Toriad Rhagfyr

Bydd y brifysgol ar gau dros gyfnod y Nadolig, ac rydym yn gwybod y gall yr amser hwn deimlo'n wahanol i bawb. Mae rhai myfyrwyr yn edrych ymlaen at y toriad, tra gall eraill deimlo'n unig, dan straen, neu'n ansicr ynghylch ble i gael cymorth.

Mae'r canllaw hwn yma i'ch helpu i aros yn ddiogel, yn iach ac yn gysylltiedig tra bod gwasanaethau ar gau neu'n gweithredu'n wahanol. Y tu mewn, fe welwch awgrymiadau defnyddiol, manylion cyswllt, a syniadau i'ch helpu i ofalu amdanoch eich hun, p'un a ydych yn aros ar y campws, gartref, neu yn rhywle arall.

Nid ydych ar eich pen eich hun. Mae cymorth ar gael o hyd, a gall camau bach wneud gwahaniaeth mawr i'ch llesiant.



Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

Tabl Cynnwys

Oriau Agor y Brifysgol yn Ystod Egwyl Rhagfyr	05
Oriau Agor GOFYN yn Ystod Egwyl Rhagfyr	06
Oriau Agor y Llyfrgell	07
Cadw'n Iach Dros Egwyl Rhagfyr: Iechyd Meddwl a Llesiant	08
	09
Lles Ariannol y Mis Rhagfyr Hwn	10
Rhestr Wirio Egwyl Rhagfyr	12
Pethau i'w Gwneud Dros Egwyl Rhagfyr	13
Digwyddiadau Sydd i Ddod yn Ystod Mis Rhagfyr	14
Cysylltiadau Defnyddiol	15
Paratoi ar gyfer mis Ionawr	15

Oriau Agor y Brifysgol Dros y Gwyliau Rhagfyr

Cyfnod Gwyliau Rhagfyr

Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cael egwyl tair wythnos o ddydd Llun 15 Rhagfyr 2025 hyd at ddydd Llun 5 Ionawr 2026. Mae hwn yn gyfnod gwyliau, sy'n golygu na fydd unrhyw ddysgu neu ddosbarthiadau wedi'u trefnu yn ystod yr amser hwn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig i fyfyrwyr wirio eu hamserlenni personol, gan y gall rhai cyrsiau gynnwys astudio hunangyfeiriedig, asesiadau neu derfynau amser yn ystod y gwyliau. Os yw hyn yn berthnasol i chi, sicrhewch eich bod yn parhau i ymgysylltu â'ch astudiaethau ac yn cynllunio'ch amser yn briodol.

Dyddiadau Cau'r Brifysgol

Bydd y brifysgol ar gau o ddydd Mercher 24 Rhagfyr 2025 hyd at ddydd Llun 5 Ionawr 2026.

Mae hyn yn golygu:

- Ni fydd y rhan fwyaf o adeiladau'r brifysgol (gan gynnwys mannau addysgu, swyddfeydd a gwasanaethau cymorth) ar gael.
- Ni fydd y rhan fwyaf o staff ar gael, ac eithrio gwasanaethau hanfodol fel diogelwch campws.
- Efallai na chaiff e-byst a chwestiynau a anfonir yn ystod yr amser hwn eu hateb tan i'r brifysgol ailagor.

Os credwch y bydd angen cymorth arnoch yn ystod y cyfnod hwn, mae'n syniad da cynllunio ymlaen llaw a gwneud defnydd o'r gwasanaethau sydd ar gael cyn i'r cau ddechrau.




Oriau Agor GOFYN yn Ystod Egwyl Mis Rhagfyr

O ddydd Llun 15 Rhagfyr 2025, bydd GOFYN ar agor ar oriau gostyngol, gan weithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener o 10am hyd 2pm. Yn ystod yr oriau hyn, gallwch gysylltu gyda'r tîm GOFYN yn y ffyrdd canlynol:

- E-bost: ask@wrexham.ac.uk
- Ffôn: 01978 294421
- Ffurflen Hunangyfeirio Ar-lein: ask.wrexham.ac.uk

Neu, gallwch fynd draw i un o'n desgiau cymorth GOFYN:



Llawr Gwaelod, Llyfrgell a Chanolfan
Cymorth Myfyrwyr, Campws Plas
Coch




Prif Dderbynfa,
Campws Llaneurgain



Prif Dderbynfa,
Canolfan OpTIC,
Campws Llanelwy

Bydd GOFYN ar gau o ddydd Mercher 24 Rhagfyr 2025 a bydd yn ailagor ddydd Llun 5 Ionawr 2026. Tra rydym i ffwrdd, gallwch fynd draw i'r dudalen Bywyd Myfyriwr. Mae'n lle defnyddiol i ddod o hyd i gefnogaeth a gwybodaeth yn ystod yr egwyl. P'un a ydych chi'n edrych am adnoddau lles, syniadau ar gyfer aros yn brysur, neu ffyrdd o gadw cysylltiad gyda bywyd yn y brifysgol, gan fod popeth rydych ei angen yma i'ch cefnogi chi.



Oriau Agor y Llyfrgell

Rhagfyr 2025

Bydd y Llyfrgell ar gampws Plas Coch yn gweithredu ar amserlen ostyngol drwy gydol mis Rhagfyr. Sicrhewch eich bod yn dod â'ch cerdyn adnabod myfyriwr, gan fod ei angen er mwyn cael mynediad at y Llyfrgell a'r ganolfan Cefnogi Myfyrwyr.

- Dydd Llun 15fed hyd ddydd Gwener 19eg o Ragfyr: 8:45am – 5:00pm
- Dydd Sadwrn 20fed Rhagfyr: 10:00am - 3:00pm
- Dydd Sul 21ain o Ragfyr: Ar gau
- Dydd Llun 22ain hyd ddydd Mawrth 23ain Rhagfyr: 8:45am – 5:00pm
- Dydd Mercher 24ain o Ragfyr: 8:45am – 12:00pm

Yn dilyn hyn, bydd y Llyfrgell yn cau am egwyl fis Rhagfyr. Os ydych angen cymorth gyda'ch aseiniadau, dod o hyd i adnoddau, neu ddefnyddio gwasanaethau'r llyfrgell, ceisiwch ymweld neu gysylltu â'r Llyfrgell cyn i egwyl y gaeaf ddechrau.

Ionawr 2026

Bydd y Llyfrgell yn ailagor ddydd Llun 5ed Ionawr 2026. Bydd oriau agor arferol yn dychwelyd wedi'r dyddiad yma:

- Dydd Llun i ddydd Gwener: 8:45am – 8:00pm




Cadw'n Iach Dros Egwyl Fis Rhagfyr: Iechyd Meddwl a Llesiant

P'un a ydych chi ar y campws neu i ffwrdd yn ystod y gwyliau, mae cefnogaeth ar gael bob amser. Isod mae yna rai gwasanaethau allweddol y gallwch eu cyrchu ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl a lles:


TalkCampus

- Gwasanaeth iechyd meddwl rhad ac am ddim 24/7 ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Wreccsam
- Sgwrsiwch yn ddienw gyda chlinigwyr hyfforddedig a chyfoedion ar hyd a lled y byd
- Cofrestrwch gan ddefnyddio eich e-bost prifysgol: www.talkcampus.com/sign-up




Student Minds

- Mae'n cynnig adnoddau defnyddiol ar gyfer eich iechyd meddwl, yn arbennig felly yn ystod tymor y Nadolig
- Gallwch gael mynediad at adnoddau hunan-gymorth, straeon myfyrwyr, a chynghorion ar gyfer delio ag unigrwydd, straen a phwysau academiaidd
- Ewch i: www.studentminds.org.uk



GIG CYMRU 111

- Ar gyfer problemau iechyd brys ond sydd heb fod yn peryglu bywyd
- Galwch ffonio 111 neu ddefnyddio'r porth ar-lein GIG 111
- Ar gael 24/7 am gyngor a chymorth meddygol



Y Samariaid

- Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch llethu neu angen rhywun i siarad â chi
- Galwch 116 123 (am ddim, ar gael 24/7)
- Ewch i: www.samaritans.org



Lles Ariannol y Mis Rhagfyr Hwn

Gall tymor yr Ŵyl deimlo'n wahanol i bawb, mae rhai myfyrwyr yn teimlo ei fod yn ymlaciol, lle mae eraill yn teimlo dan straen, yn arbennig os yw arian yn brin. Maen iawn i osod ffiniau ac i wneud dewisiadau sy'n gweithio i chi.

Mae ychydig o gynllunio'n helpu: gosodwch gyllideb realistig, traciwch unrhyw wario gydag apiau megis Snoop neu Emma, a chynlluniwch i deithio'n gynnar gan ddefnyddio Trainline ar gyfer gostyngiadau i fyfyrwyr. Rhannwch eich costau gyda ffrindiau gan ddefnyddio Splitwise, a gwnewch yn fawr o ostyngiadau ar UNiDAYS neu Student Beans. Gall anrhegion wedi'u creu gartref neu brofiadau hefyd arbed arian tra'n cadw pethau'n ystyrlon.

Cymorth Lleol ac Adnoddau Defnyddiol

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd cwrdd â chostau neu dim ond angen ychydig o gefnogaeth ychwanegol, mae cymorth ar gael. Mae yna wasanaethau fel banciau bwyd lleol, cyngor ar-lein, ac offer ar gyfer cyllido wedi'u cynllunio i wneud pethau ychydig yn haws a chefnogi eich lles y tymor Nadolig hwn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam


Gwiriwch wefan eich cyngor am fanylion ynghylch y banciau bwyd a'r cypyrddau cymunedol sydd gerllaw, maen nhw yma i'ch helpu chi os ydych chi angen ychydig o gefnogaeth.

Ymddiriedolaeth Trussell

Elusen yn y DU sy'n cefnogi rhwydwaith genedlaethol o fanciau bwyd yw'r Trussell Trust. Maent yn darparu bwyd ar frys a chefnogaeth ymarferol i bobl mewn argyfwng.

Living Made Easy

Mae Living Made Easy yn cynnig canllawiau am ddim ar adnoddau ac offer ymarferol i wneud byw o ddydd i ddydd yn haws, gan gynnwys cyngor ar gael mynediad at gefnogaeth bwyd a rheoli costau.



Rhestr Wirio Egwyl Mis Rhagfyr


Os ydych chi'n aros ar y campws dros egwyl mis Rhagfyr neu'n treulio'r cyfnod i ffwrdd oddi wrth ffrindiau a theulu, mae'r canllaw hwn yma i'ch cefnogi chi. Gall y toriad deimlo'n dawel neu hyd yn oed ychydig yn unig ar adegau, ac mae hynny'n hollol arferol. Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys syniadau syml i'ch helpu chi i ofalu am eich lles, cadw mewn cysylltiad, a gwneud yn fawr o'ch amser, p'un a ydych chi'n ymlacio, astudio neu ond yn cymryd pethau o ddydd i ddydd.

Cyn i'r Toriad Ddechrau

Estynnwch allan at deulu neu ffrindiau, gall hyd yn oed neges fer neu alwad fideo godi eich ysbryd. Gosodwch amserau a dyddiadau ymlaen llaw er mwyn cadw mewn cysylltiad drwy gydol y toriad.




Gwiriwch am ddigwyddiadau tymhorol neu weithgareddau'n digwydd ar y campws neu gerllaw, maen nhw'n ffordd wych o gwrdd ag eraill a mwynhau'r tymor. Gwnewch nodyn o'r hyn sy'n digwydd, fel nad ydych chi'n colli cyfle.



Cysylltwch gyda myfyrwyr eraill sy'n aros gerllaw, ac awgrymwch goginio gyda'ch gilydd, gwylio ffilm neu drefnu digwyddiad bach gyda'ch gilydd. Neu gallwch drefnu noson edrych ar ffilmiau neu bryd o fwyd i'w rannu er mwyn gwneud y toriad deimlo'n arbennig.



Chwilio am bethau ymlaciol i'w gwneud dros y gwyliau? Gallwch fenthyg gemau, posau ac adnoddau meddylgarwch gan eich campws er mwyn eich helpu i ymlacio a mwynhau ychydig o amser tawel. Bydd pob lleoliad yn gadael i chwi wybod sut a phryd i ddychwelyd unrhyw beth rydych chi'n ei fenthyg. Dyma ble i ddod o hyd iddynt:



- Plas Coch (Ewch i'r Ddesg GOFYN)
- Llaneurgain (Ewch draw i'r Ystafell Gyffredin)
- Llanelwy (Ewch draw i'r Ystafell Gyffredin)
- Stryd y Rhaglaw (Ewch i'r Llyfrgell)

Yn ystod y Diwrnodau Tawel

Gall cadw at drefn ysgafn, cysgu'n rheolaidd, gosod nodau dyddiol bach, ac amser i ymlacio eich helpu i deimlo dan fwy o reolaeth.



Gwnewch amser ar gyfer pethau rydych chi'n eu mwynhau, gwrandewch ar gerddoriaeth, brasluniwch, cymerwch gawod gynnes, neu fwynhau amser tawel gyda diod boeth neu lyfr. Cynlluniwch amser ar gyfer y gweithgareddau hyn bob dydd er mwyn cadw eich dyddiau'n gytbwys.



Rhowch gynnig ar weithgareddau creadigol fel cadw dyddlyfr, darlunio, lliwio neu ddarllen rhywbeth ysgafn er mwyn eich helpu i ymlacio. Mae gan Lyfrgell y Brifysgol ddetholiad gwych o lyfrau ffuglennol y gallwch eu benthyg dros dymor yr Ŵyl, perffaith ar gyfer adegau clud, tawel.



Coginiwch rywbeth maethlon, edrychwch am rysetiau hawdd a rhad ar MOB Kitchen, BBC Good Food, neu Student Eats. Gallech wneud cynllun bwyd syml ar gyfer yr wythnos er mwyn cadw'n drefnus a bwyta'n dda.



Crëwch awyrgylch gysurus, lluniwch restr chwarae o'ch hoff ganeuon neu gwyliwch ffilm sy'n eich helpu i ymlacio.



Ewch allan am awyr iach a symud, gall hyd yn oed tro byr godi eich ysbryd, lleihau straen a'ch helpu i deimlo'n fwy egniol.



Pethau i'w Gwneud Dros yr Egwyl

P'un a ydych yn aros yn Wrecsam neu'n agos at y dref dros y gwyliau, mae digon o ffyrdd i gadw mewn cysylltiad ac i fwynhau digwyddiadau lleol.

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Wrecsam

Cymerwch olwg ar ddigwyddiadau sy'n cael eu harwain gan fyfyrwyr drwy Dudalen Digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr.

Be Sy' 'Mlaen yn Wrecsam

Darganfyddwch farchnadoedd lleol, perfformiadau a digwyddiadau cymunedol ar Ganllawiau Be Sy' 'Mlaen Wrecsam.

Be Sy' 'Mlaen Caer

Awyddus i archwilio gerllaw? Dewch o hyd i ddigwyddiadau ac adloniant tymhorol yng Nghaer.

Gweithgareddau MIND Wrecsam

Ymunwch gyda grwpiau sy'n canolbwyntio ar les a sesiynau creadigol drwy weithgareddau MIND lleol.

Neuadd Bentref Rithiol

Oes well gennych chi rywbeth ar-lein? Cymerwch ran mewn dosbarthiadau a gweithdai rhithiol am ddim yn y Neuadd Bentref Rithiol.



Digwyddiadau Sydd i Ddod yn Ystod Mis Rhagfyr

Mae Bywyd Myfyriwr a Champws yn cynnal digwyddiadau cyffrous y mis Rhagfyr hwn! Gallwch weld, archebu a rheoli'r holl ddigwyddiadau yn studentlife.wrexham.ac.uk.

Dydd Llun 8fed Rhagfyr

Addurnwch eich Addurn Seramig eich Hun

Y Prif Gyntedd, Llyfrgell a Chanolfan Cymorth Myfyrwyr

12:00 – 1:30pm

Darperir yr holl ddeunyddiau - y cyfan sydd ei angen arnoch yw eich creadigrwydd!

Dydd Llun 8fed Rhagfyr

Gweithdy Creu Canhwyllau

Yr Ystafell Gyffredin, Campws Llaneurgain

12:00 - 2:00pm

Archebwch eich lle ymlaen llaw, crëwch eich kannwyll dymhorol eich hun.

Dydd Mercher 10fed Rhagfyr

Cadw'n Gynnes gyda GOFYN

9:30 - 11:30am

Galwch heibio am ddiod boeth a chacen grwst a dysgwch am y gefnogaeth sydd ar gael dros gyfnod y Nadolig.

Dydd Mercher 10fed Rhagfyr

Gweithdai Creu Torch

Y Prif Gyntedd, Llyfrgell a Chanolfan Cymorth Myfyrwyr

Sesiwn 1: 12:00 - 1:00pm

Sesiwn 2: 1:00 – 2:00pm

Mae angen archebu ymlaen llaw. Gwnewch eich torch dymhorol hardd eich hun, darperir yr holl ddeunyddiau.

Cysylltiadau Defnyddiol

Nodwch os gwelwch yn dda y bydd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau'n gweithredu ar lai o oriau neu gyda threfniadau amgen yn ystod egwyl mis Rhagfyr. Bydd Diogelwch ar y Campws parhau'n weithredol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a gellir cysylltu â hwy ar unrhyw adeg am gymorth brys.

ADRAN	MANYLION CYSWLLT
Ymholiadau GOFYN Bywyd Myfyrwyr a Champws GOFYN yw'r prif gyswllt ar gyfer unrhyw anghenion cymorth sydd gan fyfyrwyr Prifysgol Wreccsam.	ASK@wrexham.ac.uk 01978 294421
Swyddfa Ryngwladol Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn cefnogi myfyrwyr rhyngwladol gyda cheisiadau, gofynion mynediad, arweiniad ar fisa	Immigration@wrexham.ac.uk 01978 293453
Diogelwch Mae'r tîm wedi'u lleoli yn safle Plas Coch ac maent ar gael 365 diwrnod y flwyddyn, 24 awr y diwrnod.	07764687910 07764687909
Llety Mae'r tîm yn cefnogi myfyrwyr gyda llety ar y campws a llety oddi ar y campws, gan gynnig cyngor ar opsiynau tai preifat.	Accommodation@wrexham.ac.uk 01978 293344
HYSBYSU Mae Hysbysu yn cynnig cyngor 1-i-1 gydag adnoddau llyfrgell, cymorth technoleg, a sgiliau academiaidd fel ysgrifennu, cyfeirnod, a defnyddio Moodle a Microsoft 365.	inform@wrexham.ac.uk 01978 293343
Undeb y Myfyrwyr Mae Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi pob myfyriwr ym Mhrifysgol Wreccsam drwy gynnig cyngor, cymdeithasau a chlybiau rhedeg, ac yn cynnal digwyddiadau	Union@wrexham.ac.uk 01978 293371

Paratoi ar gyfer Ionawr

Bod yn Barod ar gyfer y Tymor Newydd

Gall dychwelyd ar ôl toriad deimlo'n llethol, felly cymerwch hi'n araf. Dechreuwch wrth wirio eich amserlen, trefnu eich lle i astudio, a dechrau mynd yn ôl i drefn megis cwsg rheolaidd a phrydau bwyd. Does dim angen i chi wneud popeth ar unwaith, gall cymryd camau bychain fel adolygu deunyddiau eich cwrs neu osod nodau wythnosol eich helpu i deimlo'n fwy parod a hyderus.

Paratoi ar gyfer Aseiniadau: Cadw'n Drefnus a Chael eich Cefnogi

Os oes gennych chi unrhyw asesiadau sydd i ddod, p'un a ydynt yn arholiadau, gwaith cwrs, cyflwyniadau, neu brosiectau, mae nawr yn amser gwych i greu amser astudio syml. Dechreuwch drwy dorri tasgau yn gamau llai, haws eu trin. Er enghraifft, rhannwch draethawd yn gamau megis ymchwilio, amlinellu, ysgrifennu a golygu, neu gwasgarwch eich adolygu ar draws feysydd pwnc gan ddefnyddio calendr.

Mae offer defnyddiol ar-lein i gefnogi eich cynllunio yn cynnwys:

- Pomofocus: Mae'n defnyddio'r dechneg Pomodoro i'ch helpu i gadw eich ffocws gyda blociau astudio wedi'u hamseru a thoriadau rheolaidd.
- Todolist: Mae'n gadael i chi greu rhestr dasgau, gosod dyddiadau cau, ac olrhain cynnydd ar draws nifer o aseiniadau.
- StayFocused: Estyniad ar borwr sy'n cyfyngu ar yr amser a dreulir ar wefannau sy'n tynnu meddwl rhywun fel y cyfryngau cymdeithasol neu blatfformau ffrydio.

Ar gyfer astudio ar eich pen eich hun, rhowch gynnig ar dechnegau megis:

- Crynhoi nodiadau byr yn eich geiriau eich hun
- Creu cardiau fflach (corfforol neu ddigidol)
- Defnyddio map meddwl i gysylltu syniadau a themâu
- Cofiwch amserlennu seibiannau rheolaidd, p'un a yw hynny yn dro byr, snac, neu ymestyn, er mwyn helpu i adfywio eich ffocws. Gall cadw'n gytbwys ac yn drefnus eich helpu i deimlo dan fwy o reolaeth ac wedi'ch paratoi'n well.

Angen cymorth ychwanegol? Ymgysylltwch gyda HYSBYSU

HYSBYSU yw eich gwasanaeth ar alw ym Mhrifysgol Wrexham ar gyfer ymchwil, a chefnogaeth academiaidd a digidol. Mae'n cynnwys


- Adnoddau Llyfrgell: Cymorth gyda dod o hyd i ddeunyddiau academiaidd a'u defnyddio
- Yr Ardal Dechnoleg: Cymorth gyda mewngofnodi, Wi-Fi, ac ymholiadau technolegol cyffredinol
- Sgiliau Dysgu: Canllawiau ar ysgrifennu academiaidd, cyfeirio, llywio drwy Moodle, a defnyddio Microsoft 365
- Mae'r tîm yn cynnig cymorth 1 i 1 cyfeillgar, wedi'i deilwra at eich anghenion chi drwy gydol eich amser yn y brifysgol.



inform@wrexham.ac.uk

01978 293343

@wrexunilibrary



Gosod Nodau neu Gymhellion Adfyfyrio

Mae'r tymor newydd yn ffordd wych o adfyfyrio ac ailddechrau o'r newydd. Gofynnwch i chi'ch hun: Beth oedd wedi gweithio'n dda y tymor diwethaf? Beth fyddwn i'n hoffi ei wella? Gosod ychydig o nodau realistig, p'un a yw'r rheiny'n academiaidd, yn bersonol neu'n gysylltiedig gyda lles, a'u hysgrifennu. Er enghraifft, mae'n bosib y byddwch am anelu i aros ar y blaen gyda gwaith darllen wythnosol, gwella eich arferion cysgu, neu gymryd toriadau rheolaidd yn ystod gwaith adolygu. Gall cadw llygad ar eich cynnydd eich helpu i'ch cadw wedi'ch cymell ac yn canolbwyntio drwy gydol y tymor.



Mynnwch gymorth dienw 24/7 yn rhad ac am ddim

Lawrlwythwch TalkCampus i gael
cymorth dienw 24/7 gan fyfyrwyr eraill
yn rhad ac am ddim



Sorted: Ap Iechyd Meddwl

Mae'r Ap Iechyd Meddwl: Sorted yn cynnwys nifer o wahanol raglenni sain ar gyfer adferiad, ymlacio bob dydd a llesiant.

Sganiwch Fi



.Cyfarwyddiadau:

1

Agorwch ap camera eich ffôn.

2

Anelwch at y cod QR

3

Tapiwch yr hysbysiad er mwyn gweld ein dewislen

Prifysgol Wreccsam
Wrexham University



ask.wrexham.ac.uk